# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Brynwood**

**2 Intermediate Road**
**Brynmawr**
**Glynebwy**
**NP23 4SF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05 Mai 2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Brynwood

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal a Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Brynmawr Care Village Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 40 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 20/11/2019 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nac ydy |

## Crynodeb

Gwnaethom gynnal arolygiad â phwyslais penodol dirybudd a oedd yn cynnwys cynnal ymweliad byr ar y safle, a chynhaliwyd agweddau eraill ar yr arolygiad yn rhithwir. Cafodd y pandemig diweddar gryn effaith ar y gwasanaeth, ond mae nifer y preswylwyr, lefelau staffio a newidiadau mewn strwythurau rheoli bellach yn sefydlogi.

Ar y cyfan, gwelsom fod y staff yn sylwgar, yn garedig ac yn rhoi'r gofal sydd ei angen ar y bobl. Dylid parhau i gadw llygad ar lefelau staffio yn ystod adegau prysur. Trefnir gweithgareddau i gefnogi llesiant y bobl. Ar y cyfan, dywedodd y perthnasau wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal a'r cymorth yn y cartref, er bod rhai yn teimlo y gallai'r cyfathrebu a'r trefniadau ar gyfer ymweld â'u perthnasau fod yn well. Mae ymweliadau wedi ailddechrau yn raddol gyda chyfyngiadau ar hyd ymweliadau dan do yn seiliedig ar asesiad risg y darparwr. Mae angen cefnogi a datblygu'r staff yn well. Mae polisïau a chanllawiau cynhwysfawr ar gael, ond nid yw'r staff yn cydymffurfio â'r rhain yn gyson. Mae angen gwella'r systemau ar gyfer rheoli'r broses o roi meddyginiaethau. Mae angen gwella'r broses o gyflwyno hysbysiadau i'r corff rheoleiddio. Mae systemau ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio. Mae'r datganiad o ddiben yn hanfodol ar gyfer nodi gweledigaeth y gwasanaeth ac mae'n ddogfen allweddol sydd wrthi'n cael ei diwygio i adlewyrchu'r gwasanaeth ar ôl iddo gael ei ailstrwythuro.

## Llesiant

Nid yw'r bobl yn cael eu cefnogi'n gyson i wneud pethau sy'n bwysig iddynt. Mae'r ddogfennaeth gofal yn cynnwys yr hyn y mae'r bobl yn ei ffafrio, ynghyd â'u hoff bethau a'u cas bethau, a'u hanesion cymdeithasol. Roedd yn ymddangos bod y staff gofal yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae gan y cartref arweinwyr llesiant dynodedig sy'n trefnu gweithgareddau grŵp a gweithgareddau unigol ac yn cefnogi'r bobl i ymgysylltu a chyfathrebu â'u teuluoedd a'u ffrindiau. Mae angen gwella'r gwaith o gofnodi a monitro ymgysylltiad a chyfranogiad y bobl. Oherwydd y cyfyngiadau, ni fu modd ymweld â'r cartref yn y cnawd am gyfnod sylweddol. Mae ymweliadau wedi ailddechrau yn raddol gyda chyfyngiadau ar hyd ymweliadau dan do yn seiliedig ar asesiad risg y darparwr. Mae'n bwysig bod cyfyngiadau ar ymweliadau dan do yn gymesur ac yn seiliedig ar amgylchiadau unigol y bobl, er mwyn hyrwyddo hawliau a llesiant y bobl.  Gwelsom y bobl yn dychwelyd o ymweliadau pod byr ag anwyliaid. Dywedodd y perthnasau *“Communication and organising calls and now visits has been difficult”* (Mae cyfathrebu a threfnu galwadau a nawr ymweliadau wedi bod yn anodd). Mae'n bosibl y bydd dechrau cyfathrebu â'r teuluoedd bob pythefnos i roi gwybod am brosesau ac unrhyw newidiadau o ran ymweld yn gwella hyn. Dylid ystyried hawliau, dymuniadau a theimladau unigol y bobl fel rhan o unrhyw asesiadau risg i sicrhau bod y bobl yn cael dewis a bod ymweliadau dan do yn dilyn canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru.

Roedd y cartref yn brysur iawn ar adegau; gwelsom y staff gofal yn ymateb i anghenion y bobl mor gyflym ag y gallent. Yn ystod pryd bwyd gwelsom nad oes gan y staff lawer o amser i ryngweithio â'r bobl yn ystod y cyfnod prysur hwn. Ar adegau, gwelsom nad oedd y bobl yn cael eu trin mewn ffordd urddasol wrth eu helpu i fwyta. Clywsom y staff yn gweiddi ar draws yr ystafell i'w gilydd ac ar adegau gwnaed sylwadau ansensitif gan arwain at brofiad bwyta gwael i rai o'r bobl. Mae'r ffordd y caiff y staff eu defnyddio yn golygu na chaiff anghenion unigol y bobl eu diwallu'n brydlon nac mewn ffordd barchus na sensitif ac mae angen ei hadolygu.

Caiff y bobl sy'n cael gwasanaeth eu diogelu rhag niwed. Mae systemau ar waith i gofnodi damweiniau a digwyddiadau. Mae archwiliadau o'r gofal a roddir i'r bobl a gwaith monitro iechyd a diogelwch ar waith. Lle mae cyfyngiadau angenrheidiol ar waith er budd pennaf y bobl i'w cadw'n ddiogel, mae'r rhain yn ymddangos yn gymesur. Mae angen gwella'r broses o gofnodi'r rhan y mae'r bobl yn ei chwarae wrth wneud penderfyniadau er eu budd pennaf. Caiff gwiriadau o gymeriad ac addasrwydd y staff i gyflawni eu rolau cyn rhoi gofal eu cwblhau. Mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant diogelu a hyfforddiant gloywi rheolaidd. Mae gan y darparwr bolisi a chanllawiau diogelu cynhwysfawr i'r staff eu dilyn. Mae'r gwasanaeth wedi gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i gymryd rhan yn y broses ddiogelu.

Mae angen i'r gwasanaeth reoli heintiau yn well. Mae polisïau a chanllawiau cynhwysfawr ar waith i'r holl staff eu dilyn ac maent yn unol â'r canllawiau diweddaraf. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau yn cael eu dilyn yn gyson. Er enghraifft, nid yw ymwelwyr yn cael eu gwirio'n llawn.

## Gofal a Chymorth

Roedd y cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae pob cynllun yn cwmpasu meysydd craidd gofal a chymorth unigolyn ac yn nodi'r ffordd y gall y staff ei gefnogi'n ddiogel. Er enghraifft, cefnogi unigolyn sydd mewn perygl o gwympo neu brofi niwed i'r croen. Caiff gofal a chymorth unigolion eu monitro'n rheolaidd sy'n cefnogi atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol eraill yn ôl yr angen. Mae gan bob unigolyn broffil personol sy'n esbonio'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn hwnnw. Caiff adolygiadau rheolaidd o'r cynlluniau gofal eu cwblhau. Mae angen sylw a gofal dyledus i sicrhau nad yw'r ddogfennaeth yn cynnwys gwybodaeth groes. Er enghraifft, amseroedd gwahanol ar gyfer symud unigolyn i atal niwed pwyso. Mae angen gwella'r dystiolaeth o'r rhan y mae'r bobl yn ei chwarae mewn adolygiadau gofal a phrosesau gwneud penderfyniadau a byddwn yn ystyried hyn yn ein harolygiad nesaf.

Gall profiad y bobl o ofal a chymorth amrywio.  Nid oedd pawb y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am eu profiad o fyw yn y cartref a'r cymorth y maent yn ei gael. Yn ystod adegau prysur, gwelsom fod yn rhaid i'r bobl aros i gael cymorth a gwelsom ryngweithio cymdeithasol cyfyngedig o bryd i'w gilydd ar gyfer pobl na allant fynegi eu dymuniadau ar lafar. Mae'r perthnasau yn canmol y gofal uniongyrchol a roddir i'w teuluoedd. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau eu gwaith yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, dywedodd rhai wrthym nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael digon o amser i gwblhau pob agwedd ar eu rolau gofal a bod y lefelau staffio yn cyfrannu at hyn. Roedd y rotas staffio a welwyd yn nodi achlysuron lle roedd yn ymddangos bod y lefelau staffio yn is na'r lefel ofynnol. Yn dilyn ein harolygiad, cawsom wybodaeth ychwanegol a dywedwyd wrthym fod y lefelau staffio bob amser yn ddiogel. Mae angen adolygu'r lefelau staffio ymhellach, gan ganolbwyntio ar adegau prysur, er enghraifft yn ystod amseroedd bwyd.

Nid yw'r systemau meddyginiaeth yn ddigon cadarn. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth. Mae angen gwella'r ddogfennaeth sy'n dangos sut y rhoddir meddyginiaeth heb yn wybod i'r unigolyn. Er enghraifft, tystiolaeth o'r rhan y mae'r bobl yn ei chwarae mewn prosesau gwneud penderfyniadau a'u cytundeb. Mae angen gwneud gwelliannau a byddwn yn ystyried hyn yn ein harolygiad nesaf.

Mae'r darparwr gwasanaeth yn adolygu ei nodau, ei amcanion a'i strwythur gweithredol, gan gynnwys y rheolwyr, ar hyn o bryd. Mae'r datganiad o ddiben yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Mae'r datganiad o ddiben yn hanfodol ar gyfer nodi gweledigaeth y gwasanaeth ac mae'n ddogfen allweddol a ddylai ddangos yn glir yr amrywiaeth o anghenion iechyd a gofal y bydd y gwasanaeth yn eu diwallu, gan gynnwys unrhyw wasanaeth/gofal arbenigol a gynigir.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn. Roedd yn ymddangos bod y safle, y cyfleusterau a'r cyfarpar yn addas i ddarparu'r gwasanaeth. Gwnaethom gerdded o amgylch y safle yn gyflym a gwelsom ei fod yn lân ac yn gyfforddus. Mae ystafelloedd y bobl yn adlewyrchu pwy ydynt ac roedd rhai eitemau personol a phethau bach i gofio i'w gweld.

## Arwain a Rheoli

Mae trefniadau llywodraethu ar waith sy'n cefnogi'r gwaith o redeg y gwasanaeth. Mae systemau ar waith sy'n rhoi gwybod i'r unigolyn cyfrifol a'r tîm rheoli am broblemau sy'n codi. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis. Prin yr ymgynghorwyd â'r preswylwyr a'u perthnasau yn ystod y pandemig. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi cwblhau'r adolygiadau sicrhau ansawdd gofynnol sy'n helpu i oruchwylio'r gwasanaeth. Cwblheir gwaith monitro wythnosol a misol rheolaidd lle adolygir yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu. Gwelsom sampl o archwiliadau mewnol. Rydym wedi nodi y bu rhai digwyddiadau hysbysadwy nad oedd AGC wedi cael gwybod amdanynt yn ymwneud â niwed i'r croen ac achosion honedig o gamymddwyn gan y staff. Rydym wedi trafod y mater â'r unigolyn cyfrifol, a fydd yn mynd i'r afael ag ef wrth symud ymlaen, a byddwn yn ystyried hyn yn ein harolygiad nesaf. Mae'r datganiad o ddiben yn cael ei ddiwygio ar hyn o bryd i adlewyrchu'r gwasanaeth ar ôl iddo gael ei ailstrwythuro a chaiff ei anfon i AGC.

Mae gan y gwasanaeth arferion recriwtio cadarn. Mae trefniadau dethol a fetio addas ar waith i alluogi'r darparwr gwasanaeth i benodi staff. Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r staff a gwelsom fod y gwiriadau cyn cyflogaeth angenrheidiol wedi cael eu cynnal. Gofynnir am swyddi blaenorol ymgeiswyr. Mae prosesau adnabod a geirdaon yn cefnogi addasrwydd unigol y staff i weithio yn y gwasanaeth.

Mae angen cryfhau'r systemau sydd ar waith i gefnogi'r staff a datblygu eu sgiliau. Mae'r darparwr gwasanaeth yn cydnabod bod y pandemig wedi effeithio ar y broses o gefnogi a datblygu'r staff. Gwnaethom edrych ar amserlen goruchwylio ar gyfer yr holl staff. Gwelsom fylchau yn yr amserlen goruchwylio a nodwyd nad oedd y staff gofal wedi cael eu goruchwylio'n gyson yn unol â'r gofynion rheoliadol. Mae goruchwyliaeth ffurfiol yn yr ystyr hwn yn ymwneud â thrafodaeth gyfrinachol un i un sydd wedi'i dogfennu rhwng aelod o'r staff a'i reolwr llinell. Mae'r nyrsys bellach yn cael eu goruchwylio'n ffurfiol yn rheolaidd. Mae bylchau mewn hyfforddiant gloywi i'r staff mewn perthynas â diogelwch tân a rheoli heintiau. Gwnaethom drafod y materion uchod â'r unigolyn cyfrifol a byddwn yn ystyried hyn yn ein harolygiad nesaf. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau.

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni | |
|---|---|
| Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau, yn dilyn adolygiadau o gynlluniau personol, fod y cynlluniau yn cael eu diwygio i adlewyrchu anghenion gofal a chymorth cyfredol y bobl. | |

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
|---|---|
| Methodd y darparwr gwasanaeth â hysbysu AGC am ddigwyddiadau. | Rheoliad 60(1) |
| Methodd y darparwr gwasanaeth â sicrhau bod y staff gofal yn cael eu goruchwylio'n ffurfiol yn rheolaidd. | Rheoliad 36(2)(c) |
| Methodd y darparwr gwasanaeth â sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu gweinyddu'n ddiogel. | Rheoliad 58(1) |
| Methodd y darparwr gwasanaeth â sicrhau bod y staff yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer lleihau heintiau rhag lledaenu. | Rheoliad 56(2) |
| Methodd y darparwr gwasanaeth â sicrhau bod y bobl yn cael eu trin â pharch a sensitifrwydd. | Rheoliad 25(1) |
| Methodd y darparwr gwasanaeth â sicrhau bod tystiolaeth bod y bobl a'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys wrth gynllunio gofal. | Rheoliad 15(6) |

Mae angen gwella'r maes/meysydd a nodir uchod, ond nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ar yr achlysur hwn. Mae hyn am nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r darparwr cofrestredig gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

**Dyddiad Cyhoeddi** 24 Awst 2021